
**Adroddiad materion gwefan a'r Rhyngrwyd Clwb Mynydda Cymru – CCB Tachwedd 2024**





Bu'r flwyddyn ers Tachwedd 2023 yn un eithaf prysur a chofnodwyd hanesion 58 o deithiau a gweithgareddau ar y wefan – ynghyd â'r lluniau cyferbyniol ar *Flickr*. Bu'r wefan a'r cyfrif Gweplyfr/*Facebook* yn ddefnyddiol i gysylltu ag aelodau ac i ddarganfod aelodau newydd. Bu hefyd yn ddefnyddiol pan oedd angen diweddaru'r Rhaglen – weithiau ar y funud olaf! Mae'r wefan yn dal yn gydnaws â ffonau clyfar a llechi *iOS* ac *Android* yn ogystal a porwyr ar bob math o gyfrifiaduron. Mae'r 'ap' ar gyfer ffonau clyfar a phadiau *iOS* ac *Android*, a luniwyd gan Rhys Jones, yn dal ar gael (drwy ddefnyddio'r cyfarwyddiadau ar y wefan) ac yn boblogaidd fel dull hawdd o gyrchu gwybodaeth o'r wefan ble bynnag yr ydych.

Diolch i bawb wnaeth ddanfon adroddiadau am hanes y teithiau gyda lluniau gwych. Cofiwch fod tudalen Newyddion ar y wefan hefyd ac fod croeso i bawb ddanfon manylion neu hanes o unrhyw beth all fod o ddiddordeb i'r aelodau i'r cyfeiriad ebost isod. Adroddwyd am nifer o faterion yno yn ystod y flwyddyn.

Ers Tachwedd 2023, defnyddiwyd y wefan filoedd o weithiau (y rhan fwyaf o'r DG a nifer o'r UDA a rhai o wledydd eraill). Bu'r defnydd yn weddol gyson drwy'r flwyddyn ac yn amlwg begynnu pryd roedd gweithgaredd gan y Clwb. Defnyddiwyd pob math o offer ar gyfer yr ymweliadau.


*Y Gweplyfr / Facebook*

Bellach mae ganddom bron 1.3k o ddilynwyr cyson ar ein tudalen ble gosodir cyhoeddiadau am ac adroddiadau ar weithragreddau. Dangosir yr ystod oedran a rhywedd y defnyddwyr isod.



*Flickr*

Bellach, mae tua 12,281 o luniau a dynnwyd ar ein teithiau ers 2005 gan aelodau'r clwb, i gyd ar gael drwy'r wefan ar lwyfan Flickr. Pob taith gyda'i albwm ei hunan. Gall aelodau lawrlwytho unrhyw un o rhain ar gyfer defnydd personol. Gwelir y defnydd a wnaed o'r adnodd ers 2018 isod.




Mae ein cyfrifon Gweplyfr*/Facebook*, X (Trydar *Twitter)* ag *Instagram* yn dal yn weithgar, i gyd yn cyd-lynu efo'r wefan. Diolch hefyd i'r rhai sy'n gofalu am gyhoeddi gwybodaeth ar X ac *Instagram*. Cyhoeddir y rhaglen gweithgareddau a hanesion am bob gweithgaredd, ynghyd â Newyddion, ar ein gwefan. Cofiwch dagio @Clwb Mynydda Cymru pan yn negesu ar y gwefannau cymdeithasol. Cofiwch hefyd nodi eich bod am ddilyn ein cyfrif Gweplyfr*/Facebook* a hoffi a/neu rannu'r hanesion ag eraill.

Cofiwch lawr lwytho'r 'ap' ar gyfer i*OS* neu *Android*, sy'n cysylltu'n uniongyrchol â gwefan y clwb – cyfarwyddiadau ar sut i wneud hynny ar gael ar y wefan
[http://www.clwbmynyddacymru.com/Cysylltu.html].
Dim ond drwy ddilyn y cyfarwyddiadau uchod y gellir gwneud hyn, ni ellir cael hwn drwy adnoddau fel *Playstore* ayyb.

**Er mwyn sicrhau dilyniant i'r dyfodol, os oes gan unrhyw aelod sydd â phrofiad o luniadu/cynnal gwefannau (defnyddir meddalwedd *Adobe Dreamweaver* i olygu'r wefan) ddiddordeb mewn cynorthwyo gyda'r gwaith byddwn yn ddiolchgar be gallech gysylltu â mi.**

Mae'r wefan yn gofnod pwysig o weithgareddau'r clwb dros y blynyddoedd. Daliwch ati i gefnogi ein gwefan a'r tudalennau gwefannau cymdeithasol. Mae'n bwysig lledaenu'r wybodaeth am weithgareddau'r clwb yn y dulliau hyn, gan mai dyma'r unig ffordd y daw cymaint ag sy'n bosib o bobl i wybod am yr hyn sy'n cael ei ddarparu.

Os oes ganddoch unrhyw sylw neu gwestiwn parthed gweithgareddau cysylltiedig â'r wefan yna cysylltwch â mi drwy ebost (cyfeiriad isod).

Iolo ap Gwynn 1/11/2024
Cyfeiriad Ebost: iolo.apgwynn@gmx.com
Ysgrifennydd y Wefan